# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**


Eich enw: Mary Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): CYSAG Ceredigion

e-bost / rhif ffôn: 07805667959

Eich cyfeiriad: maryd@ceredigion.gov.uk


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Gorffennaf 2021** i:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: curriculumforwales@gov.wales

**Cwestiwn 1** – Pa mor dda y mae'r canllawiau'n esbonio cwmpas RVE a'i gyd-destun ym maes y Dyniaethau?

| Ddim yn dda o gwbl | ☐ | Ddim yn dda | ☐ | Derbyniol | ☐ | Da | ✓ | Da iawn | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb (dim mwy na 250 gair).

Mae'r canllawiau'n esbonio cefndir, deddfwriaeth ac agweddau cyfreithiol yn y rhan gyntaf ynghyd ag ail ran sy'n fwy ymarferol ac yn gosod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cwrdd â gofynion cynulleidfa eang y ddogfen yn effeithiol.

Byddai ychwanegu mynegai yn werthfawr ac yn sicr mae angen cynnwys rhestr termau er mwyn darparu diffiniadau eglur o'r derminoleg, e.e. ysgolion cymunedol ac ysgolion heb gymeriad crefyddol, ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol. Er y gwneir ymgais yn y ddogfen i ddiffinio rhai termau allweddol megis argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, nid yw'r diffiniadau'n eglur.
Nid yw datganiadau fel a ganlyn yn ddefnyddiol:
"Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol yn golygu argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("E2P1")."

Does gan ymarferwyr na gweddill cynulleidfa'r canllaw ddim o'r amser i ymchwilio ymhellach am wybodaeth. Dylai'r ddogfen fod yn hunan gynhaliol ac yn ddigonol i drosglwyddo'r wybodaeth angenrheidiol.

Byddai rhestr termau cynhwysfawr a manwl ar gyfer pob adran yn y canllaw yn osgoi unrhyw gam ddehongli o derminoleg ac yn ddull o gysoni dealltwriaeth.

Byddai rhifo tudalennau yn newid bach defnyddiol.

Gwerthfawrogir y cig ychwanegol a roddir ar asgwrn y cwricwlwm yn y ddogfen ar ffurf y lensys a theithiau dysgu. Fodd bynnag, byddai cryfhau'r berthynas cyd-ddisgyblaethau o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn fanteisiol e.e. hanes diwygiad crefyddol, cyfieithu'r Beibl ayb. Byddai hyn yn help hefyd i roi'r ffocws dyledus ar gynefin yn unol â lleoliad y darparwyr.

**Cwestiwn 2** – A yw'r canllawiau, yn eu cyfanrwydd, yn glir ac yn ddefnyddiol i chi yn eich rôl?

| Ddim yn glir o gwbl | ☐ | Ychydig yn aneglur | ✓ | Ddim yn glir nac yn aneglur | ☐ | Clir | ☐ | Clir iawn | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

O safbwynt CYSAG dau brif ganllaw sydd yn y ddogfen sef;

- **arweiniad am gyfansoddiad y cyngor**
- **nodi cyfrifoldeb y CYSAG i fabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig ac i'w adolygu'r bob pum mlynedd**.

Nodir y ddyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal cynhadledd maes llafur cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'r awdurdod lleol er mwyn iddo ei fabwysiadu. Byddai awgrymiadau am sut i gyflawni hyn yn ddiddorol ac yn werthfawr. Mae'n siŵr fod llawer o arfer dda ledled CYSAGau awdurdodau Cymru parthed cynnal y cynadleddau ac mae lle yma i ddathlu hyn ac i rannu'r arferion gorau. Sut disgwylir i'r gynhadledd a gynhelir ar gyfer mabwysiadau ac adolygu'r Maes Llafur Cytunedig fod yn wahanol i gyfarfod tymhorol y CYSAG?

Teimlir nad yw'r ddogfen hon mor fanwl â'r Meysydd Llafur Cytûn sydd wedi eu mabwysiadau yn y gorffennol ac er y derbynnir yr egwyddor fod angen "subsidiarity" ar ysgolion wrth lunio eu cwricwlwm, y byddai'n fanteisiol i gael fframwaith mwy manwl fel arweiniad i ysgolion.

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau'n cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer RVE?

| Ddim yn berthnasol o gwbl | ☐ | Ychydig yn berthnasol | ☐ | Eithaf perthnasol | ✓ | Perthnasol | ☐ | Perthnasol iawn | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r adran sy'n enghreifftio teithiau dysgu yn ddefnyddiol ac yn glir ond teimlir y byddai fframwaith manylach yn ddefnyddiol i gefnogi ysgolion wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm.

Teimlir bod rhannu'r disgwyliadau yn 3 cham (camau cynnar, ymhellach ar hyd y daith ac yn ddiweddarach) yn ddryslyd gan fod y camau cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad yn 5 cam cynnydd.

Byddai esiamplau'n werthfawr yn yr adran Cynllunio Eich Cwricwlwm gan fod cynllunio cwricwlwm yn dasg enfawr sy'n wynebu holl ysgolion Cymru. Byddai ychydig o enghreifftiau o arfer dda'n help i dorri'r garw ac yn gwthio'r cwch i'r dŵr i'r ysgolion.

| |
|---|
| Mae'r aelodau o'r farn bod angen sicrhau arian ar gyfer hyfforddi ymarferwyr ac ar gyfer creu adnoddau i gefnogi addysgu'r maes. |

**Cwestiwn 4** – Gan feddwl am bob adran o'r canllawiau, ydych chi'n teimlo bod:

- unrhyw fylchau yn yr wybodaeth? Os felly, beth y dylid ei ychwanegu?
- unrhyw adrannau sy'n arbennig o ddefnyddiol? Os felly, ym mha ffordd y maent yn ddefnyddiol ac i bwy?

| |
|---|
| Byddai'n werthfawr i bob darllenydd dderbyn linc i'r fideo esboniadol a gynhyrchwyd gan Ganolfan St. Giles gan ei fod yn darparu trosolwg hynod eglur a manwl; https://stgilescentre.org/your-voice/<br><br>Fel y nodwyd eisoes mae angen cynnwys diffiniadau clir o derminoleg er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chysondeb. Rhaid cofio na fydd llawer o ddarllenwyr y canllaw yn arbenigo yn y maes.<br><br>Mae'r teithiau dysgu a'r adran ar gynllunio/dylunio cwricwlwm yn ddefnyddiol – yn benodol y cwestiynau allweddol a fydd yn rhoi cyfeiriad i ysgolion. Mae'r rhestr wirio hefyd yn fuddiol iawn ac yn mynd i fod yn help mawr i ysgolion fel dull o wirio bod eu darpariaeth yn eang a chytbwys.<br><br>Hoffwn weld cyfeiriad at iaith / ieithoedd a diwylliant, yn benodol yn y daith ddysgu 2 lle cyfeirir at y byd naturiol a phethau byw. Mae cyfle gwych yma i gynnwys ieithoedd a diwylliant o dan y pennawd gofal, ystyriaeth a pharch. Eto yn nhaith ddysgu 4 gyda hunaniaeth a pherthyn – dylid gwneud y cysylltiad fan hwn gydag ieithoedd a diwylliant. |

**Cwestiwn 5** – A yw'r canllawiau'n cynnig digon o gefnogaeth i bob ymarferydd ar gyfer eu gwaith trefnu a'u haddysgu mewn perthynas â RVE?

| Annigonol | ☐ | Ychydig yn annigonol | ☐ | Ddim yn ddigonol nac yn annigonol | ☐ | Yn gymharol ddigonol | ✓ | Yn ddigonol | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| |
|---|
| Mae'r ddogfen yn adlewyrchu natur pen agored Cwricwlwm i Gymru ac mae cynllunio ar gyfer addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg llawn cymaint o her ag ydy cynllunio gweddill y cwricwlwm. Byddai rhywfaint o esiamplau ar gynllunio'r cwricwlwm yn dderbyniol iawn gan gofio mai un agwedd o'r Maes Dysgu a Phrofiad yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a bod disgwyliad i'r ddarpariaeth fod yn drawsgwricwlaidd. |

| |
|---|
| Byddai cyflwyno'r wybodaeth a geir trwy'r datganiadau camau cynnar, ymhellach ar hyd eu taith ac yn ddiweddarach, yn gamau dilyniant clir ar ffurf 5 cam i adlewyrchu 5 cam cynnydd o fewn y MDPh Dyniaethau yn fwy defnyddiol. |

**Cwestiwn 6** – A oes angen cymorth ychwanegol (e.e. dysgu proffesiynol ac adnoddau) i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

Os felly, rhowch fwy o fanylion.

| **Oes** | ✓ | **Nac oes** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

Mae angen hyfforddiant ar athrawon a hynny ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth yr athrawon o'r gofynion. Yn sgil natur cyd-ddisgyblaethau y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau rhag cofio bod posibiliad yn fwy nag erioed o athrawon nad sy'n arbenigo yn y maes yn ei addysgu ar draws y cyfnodau allweddol. Byddai modd felly cynnig hyfforddiant ar ddwy haen, i'r rhai sydd eisoes yn arbenigo ac i eraill nad sy'n gyfarwydd ag addysgu'r maes. Noder nad yw'r athrawon sydd â gradd yn y maes o anghenraid yn hyddysg mewn athroniaethau anghrefyddol.
Byddai cyfres o weithdai/cyrsiau cenedlaethol yn fuddiol er mwyn lledaenu'r neges a chael trafodaeth agored. Byddai hefyd yn fodd o ddathlu arferion da sy'n bodloni eisoes ac yn hyrwyddo'r agenda cefnogaeth ysgol i ysgol.

Mantais arall rhaglen o hyfforddiant cenedlaethol byddai cynnig mwy o arweiniad am y derminoleg o fewn y teithiau dysgu, e.e. taith bywyd, cyfrifoldebau, awdurdod. Mae angen arweiniad ar athrawon i fedru diffinio'r derminoleg yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae hyn eto yn adleisio ein sylw blaenorol am yr angen i gynnwys allwedd derminoleg o fewn y ddogfen.

Er mwyn dygymod a'r holl newidiadau cwricwlaidd yn llwyddiannus mae angen amser ar athrawon i ddarllen a chyfarwyddo gyda'r cwricwlwm a'r canllaw newydd ac i fewnoli hyfforddiant. Byddai ariannu amser digyswllt i athrawon hefyd yn eu caniatáu i gydweithio ar draws ysgolion a sectorau er mwyn cynllunio darpariaeth gydlynus a chyson o fewn cyd destunau perthnasol i'r ysgolion.

Bydd angen sicrhau adnoddau perthnasol yn y **ddwy iaith** ar yr **un pryd, gyda'r un diwyg** rhag trin y Saesneg yn fwy ffafriol na'r Gymraeg.
Dylid sicrhau hefyd addasrwydd ieithyddol adnoddau Cymraeg yn enwedig ar gyfer y lleoliadau meithrin a nas gynhelir – dylid cynllunio deunyddiau ar gyfer caffael iaith Gymraeg trwy'r maes hwn. Dylid rhoi sylw penodol i addasrwydd ieithyddol adnoddau dysgu, llyfrau ac e-lyfrau i'r grwpiau ffocws dan sylw er mwyn gwneud y maes dysgu yn hylaw i ddisgyblion o bob oed ac o bob cefndir ieithyddol. Unwaith yn rhagor mae sicrhau cysondeb yn y defnydd o derminoleg ar draws adnoddau'n allweddol bwysig.

| |
|---|
| Pan yn addas, dylai unrhyw adnoddau newydd sy'n cael eu comisiynu, adlewyrchu hanes a diwylliant traddodiadau crefyddol Cymru. |

**Cwestiwn 7** – Mae'r cwestiwn hwn wedi'i anelu at Awdurdodau Lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog addysg grefyddol (SACs).

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol ar gyfer datblygu cynadleddau meysydd llafur cytûn?

| Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ | Ychydig yn ddefnyddiol | ✓ | Yn weddol ddefnyddiol | ☐ | Yn ddefnyddiol iawn | ☐ | Yn hynod ddefnyddiol | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol?

| Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ | Ychydig yn ddefnyddiol | ✓ | Yn weddol ddefnyddiol | ☐ | Yn ddefnyddiol iawn | ☐ | Yn hynod ddefnyddiol | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| |
|---|
| Nid oes unrhyw fanylion pellach am y ddwy agwedd hyn nad oedd yn bodloni'n flaenorol. Collwyd cyfle i ddathlu arferion da yn y maes trwy'r ddogfen hon ac i gynnig mwy o arweiniad er mwyn cysoni arferion CYSAGau ar draws Cymru. Tybed oes modd i CYSAGau Cymru ddarparu canllaw / awgrymiadau pellach am ddatblygu cynadleddau meysydd llafur cytûn? |

**Cwestiwn 8** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau RVE yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

## Sylwadau ategol

Nid yw'r ffaith bod y canllawiau yn cyfeirio at RVE trwy'r ddogfen hon yn ieithyddol gywir nac ychwaith, ac yn llawer pwysicach, yn dangos parch at y Gymraeg. Yn ei dro gall hyn niweidio statws a chyfleoedd o ran defnyddio'r Gymraeg a'i normaleiddio. Dengys hyn hefyd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol a pharchus na'r Saesneg sy'n tanseilio Deddf Iaith Cymru 2011.

Mae'r cynnwys fodd bynnag yn rhoi cyfle cyfartal i bobl ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall. Mae hyn wrth gwrs yn ddibynnol ar ddynodiadau ysgolion.

O ran cynnwys, dylid ystyried cynnwys datganiadau o fewn y teithiau dysgu enghreifftiol er mwyn cryfhau ieithoedd a diwylliant o fewn taith ddysgu 2 lle mae sôn am ofal, ystyriaeth a pharch.
Dylid hefyd gwneud cysylltiad gyda'r elfen o empathi o fewn llenyddiaeth ym MDPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a MDPh iechyd a Lles yn fwy amlwg.

Er mwyn annog disgyblion i barhau i astudio Crefydd , Gwerthoedd a Moeseg i TGAU a Lefel A, dylid sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael yn y Gymraeg a'u bod yn cael eu cyhoeddi 'run pryd a'r adnoddau Saesneg fel y nodwyd eisoes.

Mae angen darparu hyfforddiant penodol ar gyfer meithrin hyder ymarferwyr ail iaith i addysgu'r maes trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Cwestiwn 9** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllawiau RVE:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Sylwadau ategol

- Hepgor y talfyriad RVE yn y dogfennau Cymraeg a defnyddio'r talfyriad CGM yn lle hynny.
- Byddai darparu Termiadur digidol, dwyieithog sy'n diffinio'r derminoleg berthnasol yn fuddiol iawn i staff a disgyblion.

I gyd fynd gyda'r canllaw mae angen:
- Sicrhau adnoddau addysgu o safon gyfartal - fel y nodwyd eisoes
- Sicrhau mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg fydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion astudio'r maes trwy gyfrwng y Gymraeg

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐